Sain Tathan

Cartref y Coleg Technegol Amddiffyn a Pharc Awyrofod

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

metrix

cgi yn seiliedig ar gynlluniau diweddaraf gan y pensaer

ERS EIN ROWND DDIWETHAF O ARDDANGOSFEYDD CYHOEDDUS, A GYNHALIWYD YM MIS GORFFENNAF Y LLYNEDD, GWNAED CYNNYDD DA GYDAG EIN CYNIGION AR GYFER Y COLEG TECHNEGOL AMDDIFFYN A'R PARC BUSNES AWYROFOD YN SAIN TATHAN.

Roedd Cam Un o'r rhaglen ymgynghori'n cynnwys cyfres o arddangosfeydd ym Mro Morgannwg, a ddilynwyd gan nifer o Weithdai a Grwpiau Diddordeb. Ar y cyfan, mynychodd dros 500 o bobl y gwahanol ddigwyddiadau a'n darparu gyda chyfoeth o adborth ar ein cynigion sydd wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth i'r prif gynllun ddatblygu (gweler tudalen 2 am fwy o wybodaeth).

Roedd y mwyafrif llethol o sylwadau a wnaed a'r cwestiynau a godwyd yn ystod yr arddangosfeydd yn canolbwyntio ar bedwar pwnc eang - trafnidiaeth, cyflogaeth, tai a'r amgylchedd - a drafodwyd mewn cyfres o Weithdai a Grwpiau Diddordeb a gynhaliwyd ar ddiwedd 2008 ac yn gynnar yn 2009.

Roedd y Gweithdai yn ein galluogi i ymgynghori gyda'r gymuned ar elfennau penodol o'r cynllun drafft tra roedd y Grwpiau Diddordeb yn rhoi cyfle i'r tîm prosiect rannu manylion pellach ar faterion allweddol a chlywed barn y rhai a fynychodd (gweler tudalen 2 am fwy o wybodaeth).

Bydd yr ail rownd o arddangosfeydd cyhoeddus ym mis Mawrth ac Ebrill 2009 yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar y prosiect, amlygu'r newidiadau allweddol sydd wedi eu gwneud i'r prif gynllun ers y rownd ddiwethaf o arddangosfeydd a dangos sut yr ydym wedi ystyried barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill (gweler tudalen 4 am fwy o wybodaeth).

Ym mis Mai eleni, byddwn yn cyflwyno nifer o geisiadau am gynllunio i Gyngor Bro Morgannwg a bydd y Cyngor wedyn yn ymgymryd â rhaglen bellach o ymgynghori. Rhwng nawr a'r amser hynny, gobeithiwn weld hynny ohonoch ag sy'n bosib yn ein harddangosfeydd ym mis Ebrill ac rydym yn edrych ymlaen at glywed eich barn.

Mike Grimmel
Rheolwr Prosiect,
Metrix UK

Ed Bampton
Cyfarwyddwr Prosiect Sain Tathan,
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Amserlen Ymgynghori

15-18 GORFFENNAF 2008
Arddangosfeydd Cyhoeddus, Sain Tathan, Y Bontfaen a Llanilltud Fawr

4 RHAGFYR 2008
Gweithdy Adnoddau Cymunedol Sain Tathan

24 CHWEFROR 2009:
Grŷp Diddordeb Yr Amgylchedd, Sain Tathan

31 MAWRTH - 3 EBRILL 2009
Arddangosfeydd Cyhoeddus, Sain Tathan, Y Bontfaen, Llanilltud Fawr a'r Barri

10 MEDI 2008:
Arddangosfa Gyhoeddus, Llanmaes

9 RHAGFYR 2008
weithdy Trafnidiaeth, Sain Tathan

4 MAWRTH 2009:
Grŵp Diddordeb Lles Cymunedol, Sain Tathan

ARDDANGOSFEYDD CYHOEDDUS

CYNHALIWYD Y ROWND GYNTAF O ARDDANGOSFEYDD CYHOEDDUS DROS BUM NIWRNOD YM MIS GORFFENNAF 2008. YN YSTOD YR WYTHNOS, MYNYCHODD RHYW 300 O AELODAU'R CYHOEDD ARDDANGOSFEYDD YN SAIN TATHAN, Y BONTFAEN A LLANILLTUD FAWR. AR 10 MEDI, CYNHALIWYD ARDDANGOSFA GYHOEDDUS BELLACH YN LLANMAES AR GAIS CYNGOR CYMUNEDOL LLANMAES. ROEDD CYNRYCHIOLWYR O METRIX, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN AC YMGYNGHORWYR ARBENIGOL ERAILL YN BRESENNOL I ATEB CWESTIYNAU TRA ROEDD Y DEFNYDDIAU YN CAEL EU HARDDANGOS YN DARPARU GWYBODAETH GEFNDIR.

Roedd yr arddangosfeydd hefyd yn gyfle cyntaf i aelodau'r cyhoedd weld a gwneud sylwadau ynglŷn â'r cynllun drafft diweddaraf ar gyfer y safle.

Yn ystod ac yn dilyn yr arddangosfeydd, treuliodd nifer o bobl amser yn lleisio barn ynglŷn â'r cynlluniau drafft - cyflwynwyd ymhell dros 100 o sylwadau trwy gyfrwng ffurflenni adborth, galwadau i linell ymholiadau'r ymgynghoriad, e-byst a sylwadau ar y wefan.

Roedd y mwyafrif llethol o sylwadau a wnaed a'r cwestiynau a godwyd yn ystod yr arddangosfeydd yn canolbwyntio ar bedwar pwnc eang - trafnidiaeth, cyflogaeth, tai a'r amgylchedd - a drafodwyd mewn cyfres o Weithdai a Grwpiau Diddordeb a gynhaliwyd ar ddiwedd 2008 ac yn gynnar yn 2009.

Mae dadansoddiad llawn o'r sylwadau o'r arddangosfeydd ar gael ar ein gwefan ar:

www.st-athanconsultation.co.uk

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, cysylltwch â ni ar y ffôn neu drwy'r post i ofyn am gopi caled o'r ddogfen.

GWEITHDAI

YN YSTOD RHAGFYR 2008, CYNHALIWYD DAU WEITHDY'N CANOLBWYNTIO AR ADNODDAU CYMUNEDOL A THRAFNIDIAETH. CAFODD Y GWEITHDAI GEFNOGAETH DDA GAN GYMUNED LEOL A RHANDDEILIAID ERAILL O FRO MORGANNWG A LLWYDDWYD I DDENU YMHELL DROS 100 O BOBL.

Roedd y ddau weithdy yn gyfle i'r cyhoedd holi'r tîm prosiect a datgan eu syniadau eu hunain ynglŷn â'r hyn a ddylai gael ei ystyried wrth i'r prif gynllun esblygu. Gweithiodd y rhai a fynychodd mewn grwpiau trafod bach dan arweiniad hwylusydd pwrpasol. Profodd hyn yn adeiladol iawn a chyflwynwyd nifer o syniadau, cwestiynau a sylwadau da.

Roedd y Gweithdy Adnoddau Cymunedol yn canolbwyntio ar ddarpariaeth adnoddau hamdden a chwaraeon y gallai'r cyhoedd gael mynediad iddyn nhw ac roedd y Gweithdy Trafnidiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y pwysigrwydd o sicrhau trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol a'r angen i sicrhau y gallai'r rhwydwaith ffyrdd ymdopi gydag unrhyw gynnydd mewn traffig yn gysylltiedig gyda'r datblygiad.

Mae cofnod cynhwysfawr o'r holl gwestiynau a sylwadau o'r Gweithdai ar gael ar ein gwefan ar:

www.st-athanconsultation.co.uk

GRWPIAU DIDDORDEB A CHYFLWYNIADAU

CYNHALIWYD DAU GRŶP DIDDORDEB, YN CANOLBWYNTIO AR YR AMGYLCHEDD A LLES CYMUNEDOL, YN CHWEFROR A MAWRTH 2009 A LLWYDDWYD I DDENU RHYW 100 O BOBL.

Roedd y Grwpiau Diddordeb yn gyfle i dîm prosiect Sain Tathan rannu manylion pellach ynglŷyn â'r pynciau Yr Amgylchedd a Lles Cymunedol (oedd yn cynnwys cyflogaeth, diogelwch, yr amgylchedd hyfforddi a thai) ac i glywed barn y rhai oedd yn bresennol am y pwyntiau a drafodwyd.

Ym mhob digwyddiad, cafwyd cyflwyniadau gan dîm prosiect Sain Tathan ar nifer o bynciau allweddol. Yn dilyn y cyflwyniadau cynhaliwyd sesiynau holi ac ateb oedd yn galluogi pobl i holi'r ymgynghorwyr perthnasol yn uniongyrchol. Gellir lawr lwytho copïau o'r cyflwyniadau ar ein gwefan:

www.st-athanconsultation.co.uk

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, cysylltwch â ni ar y ffôn neu drwy'r post i ofyn am gopïau caled o'r cyflwyniadau.

Rydym hefyd wedi cyfathrebu'n rhagweithiol gyda nifer fawr o grwpiau a sefydliadau yn y Fro yn cynnwys cyflwyniadau i MIND ac i Sefydliad y Deillion Caerdydd.

YEich sylwadau a chwestiynau

TRWY GYDOL Y BROSES YMGYNGHORI, CYFLWYNWYD NIFER O GWESTIYNAU, SYLWADAU AC AWGRYMIADAU, AC MAE TÎM PROSIECT EHANGACH SAIN TATHAN WEDI EU HYSTYRIED NHW I GYD. DYMA DDETHOLIAD YN UNIG O'CH ADBORTH:

TRAFNIDIAETH

'SUT FYDD TRAFFIG ADEILADU YN CAEL EI ANNOG I BEIDIO Â MYND TRWY SAIN TATHAN?'

'MAE'N BWYSIG BOD Y SEILWAITH TRAFNIDIAETH YN EI LE CYN I'R DATBLYGIAD DDECHRAU'

'FAINT O GEIR YCHWANEGOL FYDD AR Y FFORDD UNWAITH I'R CTA AGOR?'

'DOES DIM OTS PA WELLIANNAU FYDD YN CAEL EU GWNEUD I DRAFNIDIAETH GYHOEDDUS, FYDDAN NHW DDIM YN WERTH DIM BYD ONI BAI BOD Y RHWYDWAITH FFYRDD YN CAEL EI GWELLA YN YR UN MODD'

'YDI HI'N BOSIB CAEL GORSAF DRENAU YN SAIN TATHAN?'

TAI

'BETH FYDD YN DIGWYDD I'R CWRS GOLFF - EISOES YN ADNODD POBLOGAIDD? OS FYDD TYLLAU'N CAEL EU COLLI ER MWYN ADEILADU, FYDD RHAI NEWYDD YN DOD YN EU LLE?'

'MAE DIGON O SAFLEOEDD TIRLENWI AR GYFER DEFNYDD PRESWYL AR GAEL YN LLANILLTUD FAWR A SAIN TATHAN'

'MAE MWY O DAI YN GOLYGU MWY O STRAEN AR FFYRDD AC ADNODDAU SY'N BODOLI EISOES'

'AR HYN O BRYD, MAE DEFNYDDIO ARDALOEDD GWYRDD I ADEILADU MWY O DAI (HYD AT 550) YN YMDDANGOS YN HOLLOL DDIANGEN AC YN NIWEIDIOL I'R AMGYLCHEDD'

YR AMGYLCHEDD

'RWY'N POENI Y BYDDWCH YN GWNEUD LLIFOGYDD YN YR ARDAL HYD YN OED YN WAETH'

'FAIN O S ŶN FYDD Y PARC BUSNES AWYROFOD YN EI GYNHYRCHU?'

'NI DDYLAI'R DATBLYGIAD HWN FOD AR DRAUL Y FIOAMRYWIAETH SYDD YM MRO MORGANNWG'

'BYDDAI LEFEL YR ADEILADU YN GOLYGU COLLED DDIFRIFOL O RAN SAFLEOEDD MAES GLAS A BYWYD GWYLLT'

CYFLOGAETH

'GOBEITHIO Y BYDD (Y DATBLYGIAD) YN RHOI GWAITH I BOBL LEOL'

'MAE ANGEN DYBRYD AM UNRHYW FATH O GYFLOGAETH YN YR ARDAL - DOES DIM GWAITH I BOBL IFANC'

'RHAID I YSGOLION DDYSGU GWYDDONIAETH YN WELL FEL BOD MYFYRWYR YN GALLU WYNEBU'R SIALENSIAU CYFLOGAETH SYDD O'U BLAENAU'

'ALLAI DDIM GWELD DIM BUDD CADARNHAOL I'R ARDAL O RAN GWAITH, AR WAHÂN I YCHYDIG O SWYDDI GWASANAETHU AM GYFLOG ISEL'

ARALL

'FYDD Y CYHOEDD WIR YN CAEL MYNEDIAD I'R ADNODDAU CHWARAEON A HAMDDEN?'

'PA WEITHGAREDDAU FYDD YN DIGWYDD YN YR ARDAL HYFFORDDI MAES?'

'SUT FYDD MYNEDIAD I ADNODDAU CHWARAEON A HAMDDEN YN CAEL EU HEFFEITHIO OS FYDD Y LLE'N CAEL EI GLOI ER MWYN DIOGELWCH?'

'RWY'N POENI AM Y NIFER O FYFYRWYR A SUT Y BYDDANT YN EFFEITHIO AR DREFI A PHENTREFI LLEOL'

SUT YR YDYM WEDI GWRANDO

BLAENORIAETH TÎM PROSIECT SAIN TATHAN OEDD YSTYRIED YR HOLL AWGRYMIADAU A SYNIADAU A GYFLWYNWYD A, BLE'N BOSIB, RHOI ATEBION TERFYNOL I'CH HOLL GWESTIYNAU.

MAE RHESTR GYNHWYSFAWR O YMATEBION I GWESTIYNAU A SYLWADAU SYDD WEDI EU GWNEUD YN YSTOD Y RHAGLEN YMGYNGHORI AR GAEL AR EIN GWEFA **WWW.ST-ATHANCONSULTATION.CO.UK**

OS NAD OES GENNYCH FYNEDIAD I'R RHYNGRWYD, CYSYLLTWCH Â NI AR Y FFÔN NEU DRWY'R POST I OFYN AM GOPÏAU CALED O'R DOGFENNAU .

RYDYM YN CYDNABOD BOD YR YMATEBION HYN YN BERTHNASOL I NIFER O BOBL, FELLY DYMA DDETHOLIAD O'R RHAI MWYAF CYFFREDIN:

ROEDDECH EISIAU GWASANAETH BWS PWRPASOL AR GYFER PERSONÉL MILWROL I ORSAF RHEILFFORDD LLANILLTUD FAWR ER MWYN LLEIHAU AFLONYDDWCH AR Y FFYRDD

Gallwn gadarnhau y bydd bysys yn cael eu darparu i gludo myfyrwyr i orsafoedd bws/ rheilffordd leol ac i'r maes awyr pan fydd nifer fawr o fyfyrwyr yn cyrraedd neu'n gadael y safle. Bydd bws mini staff hefyd yn cael ei ddarparu yn lleol ar gyfer rhai staff rheoli adnoddau. O ran y Parc Busnes Awyrofod, mae potensial i ddarparu bws pwrpasol i wasanaethu'r safle unwaith bydd digon o denantiaid wedi eu denu i wneud y fath syniad yn fuddiol.

ROEDDECH EISIAU CADARNHAD YNGLŶN Â RHIFAU CYFLOGAETH

Rydym wedi egluro bod unrhyw ffigyrau sy'n cael eu crybwyll yn cynrychioli ein hamcangyfrif gorau ar y pryd. Ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif y bydd y cyfnod adeiladu (o 2010-2014) yn cynhyrchu 1,200 o gyfleoedd cyflogaeth yn ei anterth, 80 y cant ohonynt yn debygol o gael eu llenwi gan weithlu lleol/rhanbarthol. Bydd y Coleg Technegol Amddiffyn yn uniongyrchol yn cyflogi rhyw 2,400 o bobl mewn rolau milwrol a sifilaidd, y mwyafrif ohonynt yn cael eu hysbysebu ar y farchnad agored. Gallai'r Parc Busnes Awyrofod greu tua 2,000 o swyddi ychwanegol yn yr ardal. Nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried cyfleoedd ehangach fydd yn cael eu cynhyrchu ar draws y gadwyn gyflenwi.

ROEDDECH EISIAU GWYBOD A FYDDAI'N BOSIB CAEL GORSAF RHEILFFORDD NEWYDD YN SAIN TATHAN

Nid yw'n fwriad i agor gorsaf rheilffordd newydd ar gyfer y cam hwn o'r datblygiad. Mae angen gwaith ar rannau eraill o'r rhwydwaith rheilffordd i hwyluso ymdopi gydag unrhyw gynnydd mewn defnydd a bydd yn cael ei ystyried yn y dyfodol fel rhan o'r strategaeth trafnidiaeth gyhoeddus hir dymor ar gyfer Cymru. Mae gorsaf Llanilltud Fawr, sydd wedi ei uwchraddio, yn ymdopi gyda'r cynnydd sydd ei angen ar hyn o bryd ond mae'r cynigion trafnidiaeth yn bwriadu darparu cyswllt bws pwrpasol i'r orsaf

ROEDDECH EISIAU AM LIFOGYDD AC A FYDDEN NI'N GWNEUD Y SEFYLLFA'N WAETH

Er na allwn ddatrys holl broblemau llifogydd yr ardal, gallwn gadarnhau na fyddwn yn gwneud y sefyllfa'n waeth a byddwn yn parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i asesu'r materion presennol a materion yn gysylltiedig gyda'r datblygiad. Er enghraifft, bydd y dŶr ffo o ardaloedd yn safle'r datblygiad yn cael ei reoli ar y safle yn defnyddio egwyddorion Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau). Mae SDCau yn nodweddion fel pyllau a lagwnau sy'n cael eu mesur i ddal dŶr ffo o ffyrdd, meysydd parcio a thoeau safle datblygiad yn ystod glaw ac yna'n ei ryddhau'n araf ar raddfa llawer is ar ôl glaw.

› GELLIR GWELD MWY O GWESTIYNAU AC YMATEBION AR EIN GWEFAN

ROEDDECH YN PRYDERU I NI GADARNHAU Y BYDDAI GAN Y CYHOEDD FYNEDIAD I'R ADNODDAU CHWARAEON A HAMDDEN I'R GOGLEDD O FFORDD EGLWYS BREWIS AC AR BA AMSEROEDD

Bydd gan y cyhoedd fynediad i'r adnoddau chwaraeon a hamdden i'r gogledd o ffordd Eglwys Brewis. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio gan staff milwrol yn unig yn ystod oriau craidd hyfforddiant (Llun - Gwe 0800 - 1800) a byddant ar gael at ddefnydd y cyhoedd y tu hwnt i'r amseroedd hyn, i'w gytuno gyda Chyngor Bro Morgannwg (mae rhestr gyflawn o'r adnoddau y bydd gan y cyhoedd fynediad iddynt ar gael os gwneir cais).

ROEDDECH YN PRYDERU YNGLŶN Â CHOLLI TYLLAU AR Y CWRS GOLFF YN SGIL ADEILADU TAI NEWYDD AR GYFER LLETY TEULUOEDD SY'N GWASANAETHU

Bydd pedwar twll yn cael eu heffeithio gan adeiladu'r tai newydd i Deuluoedd sy'n Gwasanaethu. Mae Metrix a'r Weinyddiaeth Amddiffyn eisoes wedi ymrwymo i ailosod y tyllau hyn ac mewn cyfarfod diweddar, cadarnhaol iawn, gyda chynrychiolwyr y Cwrs Golff.

Arddangosfeydd

Bydd yr ail rownd o arddangosfeydd cyhoeddus yn digwydd ar:

Dydd Mawrth 31 Mawrth - 15.30-20.00
Canolfan Gymunedol Sain Tathan, Glyndwr Avenue, Sain Tathan

Dydd Mercher 01 Ebrill - 15.30-20.00
Neuadd y Dref, Stryd yr Eglwys, Llanilltud Fawr

Dydd Iau 02 Ebrill - 15.30-20.00
Canolfan Hamdden y Bontfaen, The Broadshoard, Y Bontfaen

Dydd Gwener 03 Ebrill - 15.30-19.30
Memorial Hall and Theatre (in the Bedwas Hall), Barry

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â ni:
trwy e-bost: enquiries@st-athanconsultation.co.uk **ar y ffôn:** 0845 618 0016 **ar-lein:** www.st-athanconsultation.co.uk
trwy'r post: Rhadbost RRKG-AZTG-JLJX, Camargue (Sain Tathan), Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham GL50 1TA